

# Archwilio Adfeilion

## Beth yw adfail?

- Darn o rywbeth wedi ei adael ar ôl ydy adfail. Gall adfeilion fod mor fawr â chastell neu mor fach ag un fricsen fach.

- Gall adfeilion sefyll ar eu pen eu hunain neu fe allan nhw fod yn rhan o adeilad mwy modern.

- Gall adfeilion fod yn beryglus, felly ewch ag oedolyn gyda chi bob amser os ydych chi'n mynd i'w harchwilio!




## Sut mae dod o hyd i ragor o wybodaeth am adfeilion?

- Yn achos adfeilion mawr, yn aml mae yna blac neu fwrdd gwybodaeth gerllaw sy'n rhoi ychydig o'u hanes. Mae hwn yn fan cychwyn da.

- Ffordd arall ydy darllen am rywbeth mewn llyfr Hanes lleol (ee hen linell tramiau) yna ceisio dod o hyd i unrhyw adfeilion sydd wedi eu gadael ar ôl.

- Os nad oes gennych chi lyfrau Hanes lleol, mae yna ddwy ffordd hawdd o gael gafael arnyn nhw. Bydd gan eich siop lyfrau agosaf nifer ohonyn nhw. Hefyd bydd rhai yn adrannau Cyfeirlyfrau neu Astudiaethau Lleol yn eich llyfrgell leol – ac fe fyddan nhw'n gadael i chi lungopïo darnau hefyd!

- Unwaith byddwch chi wedi dod o hyd i'r adfeilion, gallwch gymryd lluniau a'u cymharu â'r rhai yn y llyfrau neu ar y rhyngrwyd* i weld beth rydych wedi ei ddarganfod.

- Mae Cymdeithas Hanes Lleol ar gael mewn nifer o drefi. Grŵp o bobl ydy'r rhain sy'n ymchwilio i hanes fel hobi. Gallwch ddod o hyd i'w rhif ffôn yn eich papur newydd neu lyfrgell leol.



* Peidiwch byth â defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio heb ddweud wrth oedolyn beth rydych yn mynd i'w wneud.

© BBC






Mae Eglwys Sant Pedr nawr yn adfail.





Dyma olion wal fawr adeiladwyd o gwmpas tŷ perchennog ffatri yn ystod cyfnod o derfysg yn y 1800au. Mae tai eraill wedi cael eu hadeiladu tu mewn i'r wal erbyn hyn.



Dyma gaer danddaearol.
Cafodd ei hadeiladu yn ystod yr Ail Ryfel Byd i helpu milwyr i amddiffyn y wlad rhag yr Almaenwyr.



Dyma dŵr sy'n dyddio nôl i amser y Rhufeiniaid.

Cafodd ei ailddefnyddio gan y Normaniaid fel rhan o'u castell a chafodd ei ddefnyddio fel carchar yn y 1700au.

Erbyn hyn mae'n rhan o dafarn.



© BBC